**DYLAI CYNGHORAU LAWRLWYTHO'R SET HON O WEFAN LLYWODRAETH CYMRU A'I HADDASU YN ÔL YR ANGEN**

I S - D D E D D F A U   M O D E L   -   S E T   1 0

# [*Enw'r Cyngor*]

# IS-DDEDDFAU AR GYFER MARCHNADOEDD

## TREFN YR IS-DDEDDFAU


1. Dehongli
2. Cymhwyso
3. Diwrnodau ac oriau marchnad
4-6. Atal rhwystrau
7-9. Awdurdod i ddefnyddio lle
10. Cadw'r farchnad yn lân
11-13. Atal tân rhag ymledu
14-16. Cadw trefn
17. Defnyddio tapiau dŵr
18-20. Anifeiliaid
21-24. Marchnadoedd da byw
25. Y gosb
26. Dirymu

Is-ddeddfau wedi eu gwneud o dan adran 60 o Ddeddf Bwyd 1984 gan [*rhowch enw'r Cyngor*] mewn cysylltiad â [*enw, lleoliad a disgrifiad o farchnadoedd y mae is-ddeddfau i fod yn gymwys iddynt*].

**Dehongli**

1. Yn yr is-ddeddfau hyn:

ystyr "cerbyd" yw cerbyd sy'n cael ei yrru'n fecanyddol [*p'un a yw*] wedi ei fwriadu neu wedi ei addasu i'w ddefnyddio ar ffyrdd [*ai peidio*] ond nid yw'n cynnwys cerbyd pobl anabl

ystyr "y Cyngor" yw [*rhowch enw'r Cyngor*];

ystyr "diwrnod marchnad" yw diwrnod y mae'r Cyngor wedi ei bennu i gynnal marchnad;

mae "gwerthu" a "gwerthiant" yn cynnwys dangos nwyddau i'w gwerthu;

ystyr "marchnad" yw'r farchnad y mae'r Cyngor yn ei chynnal o'r enw [*rhowch yr enw/unrhyw farchnad*] sy'n cael ei rhestru yn yr Atodlen i'r is-ddeddfau hyn;

ystyr "nwyddau" yw unrhyw beth y daw unigolyn ag ef i'r farchnad i'w werthu;

ystyr "oriau marchnad" yw'r oriau y mae'r Cyngor wedi eu pennu i gynnal marchnad ar ddiwrnod marchnad;

mae "stondin" yn cynnwys unrhyw fan neu le sy'n cael ei ddefnyddio neu y mae'n fwriad i'w ddefnyddio i werthu nwyddau;

ystyr "swyddog marchnad" yw'r unigolyn neu'r unigolion y mae'r Cyngor yn eu penodi i reoli marchnad yn gyffredinol, ei goruchwylio a'i chadw dan reolaeth.

**Cymhwyso**

2. Mae'r is-ddeddfau hyn yn gymwys i [*enw, lleoliad a disgrifiad o farchnadoedd y mae'r is-ddeddfau i fod yn gymwys iddynt*].

**Diwrnodau ac oriau marchnad**

3. Rhaid i berson beidio â gwerthu unrhyw nwyddau mewn marchnad y tu allan i oriau marchnad.

**Atal rhwystrau**

4. Rhaid i berson beidio â dod â cherbyd [*rhowch os oes angen*] na beic i'r farchnad yn ystod oriau marchnad heb esgus rhesymol.

5. Rhaid i berson sydd â rheolaeth dros gerbyd beidio â gwneud y canlynol yn ystod oriau marchnad: gadael iddo aros yn y farchnad neu ar y ffyrdd wrth

fynedfa’r farchnad, am gyfnod hwy na sy’n rhesymol i lwytho neu ddadlwytho nwyddau.

6. Rhaid i berson beidio â dod ag unrhyw nwyddau i’r farchnad fwy nag awr cyn i’r oriau marchnad ddechrau na gadael iddynt aros yno fwy nag awr ar ôl i’r oriau marchnad ddod i ben.

**Awdurdod i ddefnyddio lle**

7. Rhaid i berson beidio â meddiannu unrhyw stondin na rhoi unrhyw nwyddau ar unrhyw stondin heb ganiatâd y swyddog marchnad.

8. Rhaid i berson beidio â gosod na cheisio gosod stondin yn y farchnad heb ganiatâd y swyddog marchnad.

9. Pan fo’r Cyngor:

   a) yn dynodi unrhyw ran o’r farchnad yn lle i werthu nwyddau neilltuol neu unrhyw ddosbarth o nwyddau, neu yn lle i werthu drwy ocsiwn, a

   b) yn arddangos hysbysiad cyhoeddus i’r perwyl hwnnw mewn lle amlwg,

rhaid i berson beidio â ni chaiff neb werthu nwyddau na gwerthu drwy ocsiwn, heblaw yn unol â thelerau’r dynodiad hwnnw.

**Cadw’r farchnad yn lân**

10. Rhaid i bob tenant neu unigolyn sy’n meddiannu stondin:

   a) sicrhau bod y stondin yn cael ei glanhau yn iawn cyn oriau marchnad ac ar ôl hynny, ac mor aml ag sydd rhaid yn ystod yr oriau hynny;

   b) sicrhau bod yr holl sbwriel sy’n dod o’r stondin yn cael ei roi mewn bin y mae’r Cyngor yn ei roi neu yn ei gymeradwyo at y diben hwnnw;

   c) mor aml ag sydd rhaid, sicrhau bod cynnwys y bin yn cael ei symud i fan y mae’r Cyngor wedi ei ddynodi at y diben hwnnw.

**Atal tân rhag ymledu**

11. Rhaid i berson beidio ag ysmygu mewn [*disgrifiwch y man caeedig*]

12. Rhaid i berson beidio â chynnau tân mewn unrhyw ran o’r farchnad.

13. Rhaid i berson beidio â chadw na gwerthu unrhyw ddeunydd ffrwydrol na fflamadwy yn y farchnad.

**Cadw trefn**

14. Rhaid i berson beidio â chanu unrhyw gloch na chorn na defnyddio unrhyw offeryn swnllyd arall i ddenu sylw na chwsmeriaeth unrhyw un.

15. Rhaid i berson beidio â gosod nac arddangos unrhyw hysbyslen, placard na phoster os nad yw'n disgrifio nwyddau sy'n cael eu hysbysebu i'w gwerthu, mewn unrhyw ran o'r farchnad, oni bai bod y swyddog marchnad wedi rhoi caniatâd.

16. Ni chaiff neb ddosbarthu na cheisio dosbarthu unrhyw ddeunydd printiedig i'r cyhoedd, ac eithrio drwy ei werthu, yn y farchnad nac yn y ffyrdd wrth fynedfa'r farchnad oni bai bod y swyddog marchnad wedi rhoi caniatâd.

**Defnyddio tapiau dŵr**

17. Rhaid i unrhyw berson sy'n defnyddio tap dŵr yn y farchnad sicrhau ei fod wedi diffodd y tap yn syth ar ôl ei ddefnyddio.

**Anifeiliaid**

18. Rhaid i berson beidio â dod ag unrhyw anifail i'r farchnad na gadael iddo aros ynddi, a'r anifail hwnnw dan ei berchenogaeth neu ei ofal, oni bai ei fod ar dennyn neu wedi ei ddiogelu mewn ffordd arall ac yn cael ei gadw dan ei reolaeth bob amser.

19. Rhaid i denant neu berson sy'n meddiannu stondin beidio â chadw anifail yn ei stondin.

20. Nid oes dim ym mharagraff 18 sy'n atal person dall, person rhannol ddall neu berson byddar rhag cadw gydag ef unrhyw gi tywys neu gi clywed sy'n perthyn iddo ef neu sydd yn ei ofal.

**Marchnadoedd da byw**

21. Rhaid i unrhyw berson sy'n dod i'r farchnad ag unrhyw un o'r anifeiliaid a restrir yn y golofn gyntaf isod ac yn ei roi mewn lloc sicrhau bod y lloc yn rhoi lle i'r anifail hwnnw nad yw'n llai na lluoswm y mesuriadau cyfatebol yn yr ail golofn isod:

| | |
|---|---|
| Ceffyl, ych neu fuwch | 2.5 metr wrth 1 fetr |
| Llo, mul neu asyn | 1.5 metr wrth 60 centimetr |
| Hwrdd, mamog, dafad lydnod, gafr, myn gafr neu fochyn | 1.2 fetr wrth 40 centimetr |

22. Rhaid i berson beidio â mynd i unrhyw gylch gwerthu nac aros yno pan fydd yn cael ei ddefnyddio i werthu unrhyw anifail heblaw er mwyn cadw'r anifail dan reolaeth.

23. Rhaid i bawb sy’n dod ag unrhyw anifail i unrhyw loc yn y farchnad sicrhau bod y lloc yn cael ei lanhau’n iawn cyn pen o leiaf awr ar ôl diwedd yr oriau marchnad.

24. Rhaid i berson beidio â lladd unrhyw anifail yn y farchnad nac yn y ffyrdd wrth ei mynedfa heb esgus cyfreithlon.

**Y gosb**

25. Mae unrhyw berson sy’n troseddu yn erbyn unrhyw un o’r is-ddeddfau hyn yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw’n uwch na lefel 2 ar y raddfa safonol.

**Dirymu**

26. Mae’r is-ddeddfau ar gyfer marchnadoedd a gafodd eu gwneud gan [*rhowch enw’r Cyngor a wnaeth yr is-ddeddfau blaenorol*] ar [*rhowch y dyddiad, y mis a’r flwyddyn*] ac a gafodd eu cadarnhau ar [*rhowch y dyddiad, y mis a’r flwyddyn*] gan [*rhowch enw’r awdurdod cadarnhau*] wedi eu dirymu.